Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Sut i bleidleisio drwy ddirprwy

Mawrth 2026

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247


# Am y ddogfen yma

Hawdd ei Ddeall

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Sut i bleidleisio drwy ddirprwy**



Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

Sut i bleidleisio drwy ddirprwy ........ 4

Gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy........ 6

Sut i bleidleisio drwy ddirprwy ........ 9

Ydy pleidleisio drwy ddirprwy yn ddiogel?........ 11

Ydw i'n gallu newid fy meddwl? ........ 12

Pleidlais Dirprwy mewn Argyfwng ........ 13

# Sut i bleidleisio drwy ddirprwy



Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn meddwl gofyn i rywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw i bleidleisio drosoch chi yn eich **gorsaf bleidleisio**.




**Gorsaf bleidleisio** ydy'r lle rydych chi'n mynd i bleidleisio.



Mae'r person rydych chi'n gofyn iddyn nhw yn cael eu galw yn ddirprwy.



Fe fydd angen i chi ddweud wrth eich dirprwy pwy rydych chi am bleidleisio drosto. Fe fyddan nhw'n marcio eich papur pleidleisio i chi.




**Rhaid i chi wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy erbyn 5pm ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026.**




Rydych chi'n gallu gofyn i rywun fod yn ddirprwy os nad ydych chi'n gallu cyrraedd eich gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad. **Mae'r rheswm dros hyn yn gallu bod yn:**



- Rydych chi'n gwybod y byddwch chi'n brysur neu i ffwrdd o gartref.




- Dydy eich gorsaf bleidleisio ddim yn hygyrch i chi – er enghraifft, does dim ramp ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.



Rydych chi'n gallu gweld os ydy eich gorsaf bleidleisio yn hygyrch yma: [Canfod gorsaf bleidleisio]

# Gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy




**Yn gyntaf, rhaid i chi gofrestru i bleidleisio.**




Darganfyddwch fwy am gofrestru i bleidleisio yma: **Pwy sydd yn gallu pleidleisio**

**Rydych chi'n gallu gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer pob etholiad os:**



- Rydych chi wedi eich analluogi.



- Rydych chi'n byw dramor.



- Rydych chi'n fyfyriwr.



- Rydych chi'n gweithio mewn swydd benodol.



- Rydych chi wedi'ch cofrestru fel **pleidleisiwr dienw** – mae hyn yn meddwl nad ydy eich enw a'ch cyfeiriad yn ymddangos ar y **gofrestr etholiadol**.




Mae'r **gofrestr etholiadol** yn rhestr o'r holl bleidleiswyr cofrestredig.




Rydych chi'n gallu darganfod mwy am gofrestru fel pleidleisiwr dienw yma: **Pwy sydd yn gallu pleidleisio**



Pan fyddwch chi'n gofyn am bleidlais drwy ddirprwy, mae angen i chi roi:

- Eich enw llawn
- Y cyfeiriad lle rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio
- Eich llofnod
- Eich dyddiad geni
- Enw a chyfeiriad llawn eich dirprwy – y person sy'n pleidleisio drosoch chi
- Y rheswm rydych chi eisiau pleidlais drwy ddirprwy
- Cadarnhau bod eich dirprwy yn barod ac yn gallu pleidleisio drosoch chi
- Gwybodaeth ynghylch a ydy eich dirprwy yn aelod o'r teulu
- Y dyddiad rydych chi'n gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy





I wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, cliciwch yma: gov.uk/government/publications/apply-to-vote-by-proxy-at-a-particular-election-or-referendum



Fe fyddwch chi'n rhoi enw eich dirprwy pan fyddwch chi'n gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy.




Fe fydd eich dirprwy yn mynd i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.




Rhaid iddyn nhw bleidleisio drosoch chi yn yr orsaf bleidleisio sydd wedi'I henwi ar eich cerdyn pleidleisio.



Mae cardiau pleidleisio yn cael eu hanfon at bob pleidleisiwr cofrestredig. Fe fydd yn cael ei anfon i chi, hyd yn oed os oes gennych chi ddirprwy.




Maen nhw'n gardiau bach sy'n dweud pa ddyddiad mae'r etholiad a lle mae eich gorsaf bleidleisio.



Rydych chi hefyd yn gallu dod o hyd i'ch gorsaf bleidleisio yma: [Canfod gorsaf bleidleisio]



Pan fydd eich dirprwy yn eich gorsaf bleidleisio, fe fydd angen iddyn nhw roi eich enw chi a'u henw nhw.



Fe fyddan nhw wedyn yn pleidleisio drosoch chi yn y ffordd arferol. Fe fydd angen i chi ddweud wrthyn nhw pwy rydych chi am bleidleisio drosto.




Darganfyddwch fwy yma: [Sut i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio]

# Ydy pleidleisio drwy ddirprwy yn ddiogel?



Ydy. Fe fyddwch chi'n dewis rhywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw. Fe fyddwch chi'n dweud wrthyn nhw pwy rydych chi am bleidleisio drosto.

# Ydw i’n gallu newid fy meddwl?



Os byddwch chi’n newid eich meddwl, rydych chi’n gallu pleidleisio eich hun yn eich gorsaf bleidleisio. Cyn belled nad ydy eich dirprwy wedi pleidleisio drosoch chi yn barod.



Os ydych chi’n newid eich meddwl am pwy rydych chi am fod yn ddirprwy, mae angen i chi gysylltu â’ch cyngor.




Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am bleidleisio drwy ddirprwy, cysylltwch â’ch cyngor.



Mae manylion cyswllt eich cyngor yma: [gov.uk/contact-electoral-registration-office](gov.uk/contact-electoral-registration-office)

# Pleidlais Dirprwy mewn Argyfwng




Rydych chi'n gallu gofyn am bleidlais dirprwy mewn argyfwng erbyn 5pm ar ddiwrnod yr etholiad.



Dim ond os oes rhywbeth wedi digwydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer gofyn am bleidlais drwy ddirprwy y gallwch gael dirprwy mewn argyfwng.




Y dyddiad cau ar gyfer etholiad y Senedd 2026 ydy:
**5pm ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026.**

**Rydych chi'n gallu gofyn am ddirprwy mewn argyfwng os ydych chi yn:**



- Argyfwng meddygol – er enghraifft rydych chi yn yr ysbyty.



- Yn analluog.



- I ffwrdd gyda waith.



Cysylltwch â’ch cyngor os ydych chi angen dirprwy mewn argyfwng.



Mae manylion cyswllt eich cyngor yma: [gov.uk/contact-electoral-registration-office](gov.uk/contact-electoral-registration-office)